# Cyngor Cymuned Llanfihangelesceifiog Community Council

**Cofnodion Cyfarfod Llawn y Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Cymunedol Y Gaerwen, ar Nos IAU, 30ain EBRILL 2026.**

**Minutes of the Full Council Meeting held at the Gaerwen Community Centre, on THURSDAY, 30th APRIL 2026.**

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Presennol oedd** | **PRESENT were:** |
| | Cynghorwyr:<br>Mr Einion Williams (Cadeirydd),<br>Mr Ian Owen, Ms Linda Jones,<br>Mr Rhodri Williams, Mr Deiniol Jones &<br>Mr Gerallt Hughes.<br>Ymunodd y Cyng Ms Kirsty Williams â'r cyfarfod am 7.10pm.<br>HEFYD yn bresennol oedd:<br>Mr J Alun Foulkes (Clerc) a<br>Cynghorydd Sir Mr Dafydd Roberts. | Councillors:<br>Mr Einion Williams (Chair),<br>Mr Ian Owen, Ms Linda Jones,<br>Mr Rhodri Williams, Mr Deiniol Jones &<br>Mr Gerallt Hughes.<br>Cllr Ms Kirsty Williams joined the meeting at 7.10pm.<br>ALSO in attendance:<br>Mr J Alun Foulkes (Clerk) &<br>County Councillor Mr Dafydd Roberts. |
| | | |
| **2** | **Derbyn Ymddiheuriad** | **To Receive Apologies from:** |
| | Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb Oddiwrth:<br>Y Cynghorwyr:<br>Mr Derek Hughes & Mr Cynrig Jones. | Apologies for absence received from:<br><br>Councillors:<br>Mr Derek Hughes & Mr Cynrig Jones. |
| | | |
| **3** | **Croeso** | **Welcome** |
| | Croesawyd y Cynghorwyr yn gynnes i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Mr Einion Williams. | Councillors were warmly welcomed to the meeting by the Chair,<br>Cllr Mr Einion Williams. |
| | | |
| **4** | **Datgan Diddordeb Personol a/neu Rhagfarnol** | **Declare Personal and/or Prejudicial Interest** |
| | Datganodd y Cynghorydd Mr Gerallt Hughes fuddiant personol a oedd yn rhagfarnol wrth drafod y Cais Cynllunio a dderbyniwyd yn ymwneud â Thŷ Mawr Llan. Gan mai ef oedd yr ymgeisydd, gadawodd yr ystafell wrth drafod y cais cynllunio ac ni chymerodd unrhyw rhan yn y drafodaeth a phenderfyniad. | Cllr Mr Gerallt Hughes declared a personal interest that was prejudicial when discussing the Planning Application received appertaining to Ty Mawr Llan. As he was the applicant, he left the room when discussing the planning application and took no part in any of the decision. |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| **5** | **Cywiro & Cymeradwyo Cofnodion** | **To Correct & Approve Minutes** |
| | **Cyfarfod Misol – 19eg Mawrth 2026:** Cynigiwyd ac eiliwyd (LJ/RW) i gymeradwyo bod y cofnodion yn gywir. Cytunwyd yn unfrydol a'i lofnodi gan y Cadeirydd. | **Monthly Meeting – 19th March 2026:** Proposed & Seconded (LJ/RW) to approve that the minutes were true and correct. Unanimously agreed and signed by the Chairman. |
| | | |
| **6** | **Materion Caeau Chwarae** | **Play Area Matters** |
| **6.1** | **Offer Roced** | **Rocket Equipment** |
| | Bydd y gwaith i adfer yr offer hwn wedi'i gwblhau erbyn y cyfarfod nesaf. | Work to reinstate this equipment will be completed by the next meeting. |
| **6.2** | **Cŵn (Cae Chwarae Mawr)** | **Dogs (Cae Chwarae Mawr).** |
| | Roedd y Clerc ac aelodau'r Cyngor yn bryderus iawn ac yn siomedig gydag ymatebion trigolion ar Facebook ar ôl tynnu sylw at y ffaith bod rhywun wedi cael ei lun yn chwarae gyda'i gi yng Nghae Chwarae Mawr a'r cam-drin annerbyniol a anelwyd at y Clerc. **PENDERFYNWYD y byddai'r Clerc yn trefnu arwyddion gwell yn y ddau Faes Chwarae cyn gynted â phosibl.** | The Clerk and Council members were very concerned and disappointed with resident responses on facebook having highlighted that someone had been pictured playing with his dog in Cae Chwarae Mawr and the unacceptable abuse aimed towards the Clerk. **RESOLVED that the Clerk will arrange for better signage in both Play Areas as soon as possible.** |
| **6.3** | **Gwastraff Sbwriel** | **Rubbish Waste** |
| | Nododd y Cyngor hefyd fod Cynghorydd wedi adrodd ei fod hefyd wedi derbyn ymddygiad annerbyniol gan drigolion wrth lanhau sbwriel ym Maes Chwarae Gaerwen Uchaf. | The Council also noted that a Councillor report that he had also received unacceptable behaviour from a resident whilst cleaning up rubbish at the Gaerwen Uchaf Play Area. |
| | | |
| **7** | **Rhaglen Balchder yn ei Le** | **Pride in Place Programme** |
| | Hysbysodd y Clerc fod cadarnhad, yn ysgrifenedig, wedi dod i law gan CSYM fod swm o £15,804.97 wedi'i ddyrannu, os oes angen. Amlinellodd hefyd yr amserlen ar gyfer gwario'r arian ynghyd â'r meini prawf a'r telerau amodau. **PENDERFYNWYD bod y Clerc yn ateb CSYM bod y Cyngor Cymuned yn derbyn y cyllid a ddyrannwyd. Cytunwyd hefyd i fuddsoddi mwyafrif y dyraniad mewn uwchraddio a gwella'r prif ffensys ffiniol ar gyfer y Maes Chwarae ac ailosod offer yng Nghardd y Mileniwm ac i ddechrau'r** | The Clerk informed Council that confirmation, in writing, had been received from the IOACC that a sum of £15,804.97 has been allocated, if needed. He also outlined the timeframe for spending the funds plus the criteria and terms of conditions. **RESOLVED that the Clerk replies to the IOACC that the Community Council accepts the allocated funding. It was also accepted to invest the majority of the allocation into upgrading and improving the main Play Area Boundary Fencing &** |

| | | |
|---|---|---|
| | **broses o gael dyfynbrisiau i baratoi ar gyfer cyfarfod mis Mehefin.** | **replacing equipment in the Millennium Garden and to begin the process of obtaining quotations in preparation for the June meeting.** |
| | | |
| **8** | **Cynllun Teithio Llesol** | **Active Travel Scheme** |
| | Cytunwyd i ohirio'r mater i gyfarfod mis Mai ar gyfer trafodaethau pellach ynghylch gwella a chreu ardal fwy ddiogel ar hyd Lôn Groes a Stryd y Capel i gerddwyr a beicwyr a hefyd i ailystyried ailosod y lloches bws a datblygu'r ardal gyferbyn â Stermat.<br>**PENDERFYNWYD bod y Clerc yn dosbarthu'r cynllun arfaethedig a amlinellwyd gan CSYM.** | Agreed to defer this matter to the May meeting for further discussions in improving and creating a safer area along Lon Groes and Chapel Street for pedestrians and cyclists and also to reconsider replacing the bus shelter and develop the area opposite Stermat.<br>**RESOLVED that the Clerk circulates the proposed plan outlined by the IOACC.** |
| | | |
| **9** | **Safle Parcio & Teithio Gaerwen** | **Gaerwen Park & Ride Site** |
| | Yn dilyn trafodaeth hir arall am sylwadau diweddar ar Facebook ac Adroddiadau yn y Wasg am weithgareddau annerbyniol a'r defnydd parhaus dros dro o'r safle i ddarparu ar gyfer Teithwyr, cynigiwyd ac eiliwyd (LJ/GH) a chytunwyd yn unfrydol i anfon Cais Rhyddid Gwybodaeth at CSYM am atebion perthnasol a phryderon parhaus y Cyngor Cymuned.<br>**PENDERFYNWYD bod y Clerc yn paratoi ac yn anfon Cais Rhyddid Gwybodaeth at CSYM cyn y cyfarfod nesaf.** | Following another lengthy discussion about recent Facebook comments and Press Reports into unacceptable activities and the continued and temporary use of the site to accommodate Travellers, it was proposed and seconded (LJ/GH) and agreed unanimously to send a Freedom of Information Request to the IOACC for relevant answers and ongoing concerns of the Community Council.<br>**RESOLVED that the Clerk prepares and send an FOI to the IOACC before the next meeting.** |
| | | |
| **10** | **Adroddiad y Cynghorwyr Sirol** | **County Councillor's Report** |
| | Rhoddodd y Cynghorydd Sirol Mr Dafydd Roberts adroddiad diweddar byr ar faterion y Cyngor Sir a diolchwyd iddo gan y Cadeirydd. | County Cllr Mr Dafydd Roberts gave a brief updated report on County Council Executive Committee issues and was thanked by the Chair. |
| | | |
| **11** | **Adroddiad Cyllid** | **Financial Report** |
| **11.1** | **Rhestr Taliadau & Derbyniadau y Cyngor:**<br>Cynnig & Eilio (LJ/RW) i gymeradwyo'r taliadau isod ac fe basiwyd yn unfrydol: | **List of Council Bills for Payments:**<br>Proposed & Seconded (LJ/IO) to approve the payments below and this was passed unanimously: |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| | Cyflog Clerc – Ebrill 2026 **£490.50**<br><br>British Gas – Trydan Gardd Mileniwm 3ydd Mawrth > 2ail Ebrill 2026 **£31.80**<br><br>Costau Banc **£4.40**<br><br>Aelodaeth Un Llais Cymru 2026 - **£364.00**<br><br>Mr Dafydd Hughes – Torri Gwair Meysydd Chwarae – Mawrth/ Ebrill 2026 - **£470.00**<br><br>Mr Ian Owen – Cloeon Giat Maes Chware Cae Mawr - **£20.38** | Clerks Wages – May 2026 **£490.50**<br><br>British Gas – Millenium Garden Electric 3rd March > 2nd April 2026 **£31.80**<br><br>Bank Charges **£4.40**<br><br>One Voice Wales Membership 2026 - **£364.00**<br><br>Mr Dafydd Hughes – Play Areas Grass Cutting – March & April 2026 - **£470.00**<br><br>Mr Ian Owen – Play Area Gate Locks - **£20.38** |
| **11.2** | **Incwm** | **Income** |
| | CSYM – Rhandaliad 1af Priseb 2026-2027 - **£8,750.00** | IOACC 1st Precept Instalment 2026-2027 **- £8,750.00.** |
| **11.3** | **Cysoni Cyfrifon Banc: 31.3.2026** | **Bank Account Reconciliation: 31.3.2026** |
| | Cyfrif Cyffredol - £3,569.55<br>Cyfrif Cadw - £3,267.24 | Current Account - £3,569.55<br>Reserve Account - £3,267.24 |
| | | |
| **12** | **Rhoddion** | **Donations.** |
| | Nododd y Cyngor fod llythyr diolch wedi'i dderbyn gan Ganolfan Gymunedol Gaerwen (Esceifiog) am eu Rhodd Flynyddol. | The Council noted that a letter of thanks had been received from the Gaerwen (Esceifiog) Community Centre for their Annual Donation. |
| | | |
| **13** | **Penodi Archwilydd Mewnol 2025/26** | **Appoint Internal Auditor 2025/2026** |
| | Cytunwyd ail-penodi Cyngor Gwynedd. Cynigiwyd ac eiliwyd (GH/LJ) a phasiwyd yn unfrydol. | Agreed to reappoint Gwynedd Council. Proposed & Seconded (GH/LJ) and passed unanimously. |
| | | |
| **14** | **Derbyn Mantolen Ariannol y Cyngor 2025-2026** | **Accept the Council's Financial Statement for 2025-2026.** |
| | Yn dilyn esboniad llawn gan y Clerc, derbyniwyd y datganiad ariannol gyda diolch. Cynigiwyd ac eiliwyd (IO/LJ) a phasiwyd yn unfrydol. | Following a full explanation by the Clerk, the financial statement was accepted with thanks. Proposed & Seconded (IO/LJ) and passed unanimously. |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **15** | **Ceisiadau Cynllunio Newydd** | **New Planning Applications** |
| **15.1** | Cais am Dystysgrif Cyfreithlondeb o ddatblygiad presennol mewn perthynas â chychwyn gwaith materol ar ganiatâd cynllunio FPL/2019/124 (codi 5 annedd farchnad agored a 1 annedd fforddiadwy ynghyd a chreu mynedfeydd newydd i gerbydau a gwaith cysylltiedig) ar yr hen safle: **Little Chef – LUE/2026/6 –**<br>**DIM SYLWADAU.** | Application for a Certificate of Lawfulness of existing development in relation to a material start having been made on planning permission reference FPL/2019/124 (erection of 5 open market dwellings and 1 affordable dwelling together with the creation of new vehicular accesses together with associated development at the former site: **Little Chef – LUE/2026/6 –**<br>**NO OBSERVATIONS.** |
| **15.2** | Cais llawn Addasu & Ehangu yn:<br>**Ty Mawr Llan, Pentre Berw, Gaerwen – HHP/2026/77 - DIM SYLWADAU.** | Full application to Alter & Extend at:<br>**Ty Mawr Llan, Pentre Berw, Gaerwen – HHP/2026/77 - NO OBSERVATIONS.** |
| | | |
| **16** | **Gohebiaeth** | **Correspondence** |
| **16.1** | **Gorchymyn Gwahardd Traffig Drwodd Dros Dro Cyngor Sir Ynys Môn 2026 (B4419 Pentre Berw i Llangaffo)** – cau'r ffordd am o leiaf 6 awr ar 18 Mai 2026 i ganiatáu profion polion a gwaith torri coed. | **IOACC Temporary Prohibition Through Traffic Order 2026 (B4419 Pentre Berw to Llangaffo)** – closure of the road for at least 6 hours on the 18th May 2026 to allow pole testing and tree cutting works. |
| **16.2** | Cofnodion Cyfarfod Cangen Ardal Ynys Môn o Un Llais Cymru a gynhaliwyd ar 22 Ebrill 2026. | One Voice Wales Anglesey Area Branch Meeting minutes held on the 22nd April 2026. |
| **16.3** | Hysbysiad o gyfarfod nesaf Cynghrair Bodowyr a gynhelir ar 10 Mehefin 2026 am 6.00pm (lleoliad anhysbys eto). | Notice of the next Bodowyr Alliance meeting to be held on the 10th June 2026 at 6.00pm (venue yet unknown). |
| | | |
| **17** | **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – Nos FAWRTH, 26ain MAI 2026.** | **Date of Next Meeting – Tuesday, 26th MAY 2026.** |
| | Heb unrhyw fusnes pellach i'w drafod, diolchodd y Cadeirydd i'r Clerc a'r Cynghorwyr am eu presenoldeb ac fe ddaeth y cyfarfod i ben am 8.25yh. | With no further business to be conducted, the Chairman thanked the Clerk and the Councillors for their attendance and declared the meeting closed at 8.25pm. |

**Arwyddo/Sign……………………………….Cadeirydd/Chair………………Dyddiad/Date.**